



## Ydy'r ffordd mae bwyd yn edrych yn effeithio ar sut mae'n blasu?

### Trosolwg gwers

Yn y wers hon, bydd y plant yn ymchwilio eu synhwyrac ac yna'n defnyddio eu synnwyr blas i ymchwilio i flas ffrwythau a llysiau â siâp simsan afreolaidd.

Gellid defnyddio'r wers hon i ddechrau'r plant i feddwl sut y gallent gadw eu cyrff a'u planed yn iach a'u hysbrydoli i ddylunio syniad, dyfais neu arloesedd a fydd yn helpu ffermwyr i barhau i ofalu am yr amgylchedd a bod yn archarwyr hinsawdd ar gyfer eu cais yn y gystadleuaeth Farmvention.

### Offer sydd e i angen

- Amserydd neu oriawr
- Blychau/bagiau didraidd gydag amrywiaeth o wrthrychau cyfarwydd wedi eu cuddio y tu mewn iddynt
- Cwpanau neu botiau iogwrt yn dal bwydydd sy'n aroglu'n gryf, wedi'u gorchuddio â phapur neu rolyn cegin gyda thyllau bach wedi'u pigo i mewn a'u dal yn eu lle gyda band elastig
- Amrywiaeth o fwydydd i'w blasu
- Tri sampl o o leiaf un math o ffrwythau / llysiau, rhai yn fwy simsan nag eraill
- Pencil a phapur ar gyfer cofnodi canlyniadau
- Cyllyll, plicwyr a byrddau torri ar gyfer paratoi samplau blasu

### Canllaw athrawon

#### Sleid 2: Cynnyrch Prydeinig

- Trafodwch â phlant pa fwydydd rydyn ni'n eu cael o ffermydd y DU. Gallech ofyn:
  - Ble rydyn ni'n cael ffrwythau a llysiau?
  - Ydych chi erioed wedi bod i fferm? Pa ffynonellau bwyd a welsoch chi?
  - Beth gawsoch chi i ginio neithiwr? Pa rannau o'ch pryd a ddaeth o ffermydd?
  - Beth yw eich hoff ffrwythau a llysiau? Ydych chi'n meddwl y gallwn ni dyfu'r rhain yn y DU?
- Mae'r cynnyrch a dyfir yn gyffredin ar ffermydd y DU yn cynnwys moron, tatws, winwns, pannas, brocoli, bresych, seleri, courgettes, tomatos, afalau, gellyg a mefus i enwi ychydig o enghreifftiau. Trafodwch pa rai o'r rhain mae'r plant yn hoffi eu bwyta a'r ffaith bod yr holl fwydydd hyn yn iach.
- Os ydych chi'n cyflawni'r gweithgaredd hwn gartref, fe allech chi archwilio'ch cypyrddau i weld beth sydd gennych chi sydd wedi'i dyfu yn y DU. Os ydych chi'n ei wneud yn yr ysgol, fe allech chi geisio darganfod ble mae'ch ffrwythau amser byrbryd wedi'i dyfu.
- Dyma fideo sydd yn edrych ar rai o'r cynnyrch sy'n cael ei gynaeafu ar ffermydd y DU ac y gellid ei ddefnyddio i ymgyfarwyddo plant â phrosesau ffermio:  
<https://www.youtube.com/watch?v=L1PdwQOurgU>
- Mae'r fideos yma yn dangos gwahanol lysiau yn tyfu ac yn dangos y daith gyfan o blannu i gyrraedd archfarchnadoedd:
  - Moron – <https://www.youtube.com/watch?v=Pf74rrn1uLk>
  - Puprynnau – <https://www.youtube.com/watch?v=wpYWSdH9rPE>
  - Tatws – <https://www.youtube.com/watch?v=lyBuY-DnCJc>
  - Tomatos – <https://www.youtube.com/watch?v=PGoPGAR5OMw>
- Fe allech chi hefyd ofyn i'r plant feddwl am unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut mae llysiau'n cael eu tyfu yn y DU ac yna trefnu i siarad â ffermwr dros Facetime (neu Skype) i'w trafod:  
<https://leafuk.org/farmertime/home>





<p><b>Sleid 3: Ffrwythau a Llysiau Simsan</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trafodwch â phlant eu barn ar fwyta ffrwythau a llysiau simsan, neu 'wonky' fel y'u gelwir yn Saesneg. A oes unrhyw un ohonynt wedi ceisio tyfu eu bwyd eu hunain o'r blaen? Tybed oeddynt yn edrych fel y cynnyrch a welwn yn y siopau? Sut oedd yn blasu?</li> <li>Siaradwch am rai o'r ryseitiau a'r prydau bwyd maen nhw'n gyfarwydd â nhw ac ystyriwch a allwch chi ddweud pa siâp oedd y llysieuyn cyn iddo gael ei ychwanegu at y pryd bwyd.</li> </ul>
<p><b>Sleid 4: Eich Cwestiwn</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Esboniwch eich bod chi'n mynd i ddefnyddio'ch synhwyrâu i ymchwilio i'r cwestiwn: Ydy siâp bwyd yn effeithio ar sut mae'n blasu?</li> </ul>
<p><b>Sleid 5: Beth yw ein synhwyrâu?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddiwch y cyflwyniad i drafod ein pum synnwyr a pha organau synnwyr rydyn ni'n eu defnyddio ar gyfer pob un ohonyn nhw.</li> <li>Y pum synnwyr y mae plant yn dysgu amdanynt yw synhwyrâu gweld, clywed, arogl, cyffwrdd a blasu. Mae'r rhain yn ein helpu i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas ac, yn bwysig, yn ein cadw'n ddiogel. Er enghraifft, gallwn ddefnyddio ein synhwyrâu i'n helpu i nodi bwyd a allai ein gwneud yn sâl, amser pan allai fod yn anniogel croesi ffordd neu wrthrychau a allai fod yn rhy boeth neu'n finiog i'w cyffwrdd.</li> <li>Trafodwch â phlant pryd maent wedi defnyddio pob synnwyr hyd yn hyn heddiw, er enghraifft efallai eu bod wedi defnyddio eu synnwyr blasu wrth fwyta eu brecwast, neu eu synnwyr clywed i wrando am eu henw yn ystod y gofrestr neu eu synnwyr gweld i weld pryd newidiodd y golau ar y groesfan i gerddwyr yn wyrdd.</li> <li>Gwylwch fideo i edrych ar y synhwyrâu cael eu defnyddio ar fferm: <a href="https://www.youtube.com/watch?v=JCsQbE3-gfU&amp;list=PLfQQD6ZJA60YhGhL-T9NhnIjGYiNi0vf&amp;index=10">https://www.youtube.com/watch?v=JCsQbE3-gfU&amp;list=PLfQQD6ZJA60YhGhL-T9NhnIjGYiNi0vf&amp;index=10</a></li> </ul>
<p><b>Sleid 6: Ymchwilio golwg</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Fe allech chi chwarae 'Mi wela i...' traddodiadol yma, lle mae chwaraewyr yn chwilio am rywbeth sy'n dechrau gyda llythyren benodol, neu fe allech chi roi cyfle i blant ymarfer eu sgiliau ffonog trwy addasu'r gêm fel eu bod nhw'n chwilio am rywbeth sy'n cynnwys sain penodol. Er enghraifft, "Mi wela i gyda'n llygad bach i, rhywbeth sydd â'r sain 'ar,'" (carped, gardd ac ati)</li> <li>Trwy gydol y gêm, atgyfnerthwch ein bod yn defnyddio ein llygaid a'n synnwyr gweld i ddod o hyd i'r gwrthrychau.</li> </ul>





**Sleid 7:  
Ymchwilio  
clyw**

- Cynnal 'munud gwrandod' y tu mewn a'r tu allan. Gofynnwch i'r plant eistedd mewn distawrwydd a meddwl am yr hyn y gallant ei glywed.
- Sicrhewch fod y plant yn cadw eu llygaid ar gau yn ystod eu munudau gwrandod fel eu bod ond yn defnyddio eu synnwyr clywed i nodi pethau.
- Fe allech chi ofyn iddyn nhw ysgrifennu rhestrau o'r pethau maen nhw'n eu clywed. Fel arall, fe allech chi chwarae rhai synau a geir ar-lein a gweld a allant adnabod y ffynonellau.
- Trwy gydol y gweithgaredd, daliwch i atgoffa'r plant eu bod yn defnyddio eu synnwyr clywed a chlustiau i nodi pethau.
- **Cwestiynau i'w gofyn:**
  - A glywsoch chi'r un synau y tu mewn a'r tu allan?
  - Pa mor hawdd neu anodd oedd hi i weithio allan beth oedd yn gwneud yr holl synau gwahanol?
  - A oedd yr holl synau mor uchel a'i gilydd, neu a oedd rhai synau uwch a rhai tawelach?

**Sleid 8:  
Ymchwilio  
cyffwrdd**

- Cuddiwch amrywiaeth o wrthrychau cyfarwydd mewn bag neu flwch didraidd a gofynnwch i'r plant estyn y tu mewn a cheisio adnabod yr eitemau.
- Trwy gydol y gweithgaredd, daliwch i atgoffa'r plant eu bod yn defnyddio eu synnwyr cyffwrdd a chroen i adnabod pethau.
- Gall plant feddwl eu bod yn defnyddio eu dwylo yn unig ar gyfer eu synnwyr cyffwrdd, nid eu croen. Er mwyn eu helpu i ddysgu mai ein croen ni ac nid ein dwylo yn unig sy'n defnyddio ein synnwyr cyffwrdd, cynigwch ddau wrthrych gwahanol iawn iddynt, fel tedi a llyfr, a gofynnwch iddynt eu hadnabod gan ddefnyddio eu traed neu eu breichiau yn unig, a'u llygaid ar gau.
- **Cwestiynau i'w gofyn:**
  - A oedd hi'n hawdd neu'n anodd gweithio allan beth oedd yn gudd gan ddefnyddio'ch synnwyr cyffwrdd yn unig?
  - A allech chi ddweud a oedd y gwrthrychau yn feddal neu'n galed?
  - A allech chi ddweud pa liw oeddent?
  - A allech chi ddweud a oeddent yn arw neu'n llyfn?

**Sleid 9:  
Ymchwilio  
arogl**

- Cuddiwch rai gwrthrychau sydd ag arogleuon cyfarwydd mewn cwpanau didraidd bach neu botiau iogwrt, gorchuddiwch y top gyda darn o bapur neu dywel cegin gyda thyllau bach wedi'u pigo i mewn a sicrhau hyn yn ei le gyda band elastig.
- Gofynnwch i'r plant arogl pob pot a cheisio adnabod yr hyn sydd y tu mewn. Ymhlith y bwydydd sy'n gweithio'n dda yn y gweithgaredd hwn mae orennau, lemonau, coffi, mintys, garleg, nionyn, powdr cyri a rhai cawsiau.
- Trwy gydol y gweithgaredd, cofiwch atgoffa'r plant eu bod yn defnyddio eu synnwyr arogl a'u trwyn i nodi pethau.
- **Cwestiynau i'w gofyn:**
  - A oedd hi'n hawdd neu'n anodd gweithio allan beth oedd yn gudd gan ddefnyddio'ch synnwyr arogl yn unig?
  - Oedd pob un o'r arogleuon yn braf neu a oedd yna rai nad oeddech chi'n eu hoffi?
- **Iechyd & Diogelwch:** Sicrhewch eich bod yn ymwybodol o unrhyw alergeddau yn eich dosbarth cyn caniatáu i blant arogl bwydydd cudd.





<p><b>Sleid 10:</b> <b>Ymchwilio blas</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal prawf blas gyda mwgwd o rai bwydydd cyfarwydd. Fe allech chi gynnig ystod o wahanol fwydydd i blant geisio neu gyfyngu'r ystod i wahanol fathau / blasau o'r un peth, er enghraifft iogwrt neu greision â blas gwahanol.</li> <li>• Efallai y bydd rhai plant yn amharod i roi cynnig ar rywbeth na allant ei weld, ac felly mae defnyddio creision blas gwahanol yn opsiwn da yma gan na fydd angen iddynt gael eu mwgwd. Os oes gennych fynediad at liw bwyd, fe allech chi eu defnyddio i roi ymddangosiad gwahanol i iogwrt cyfarwydd.</li> <li>• Er mwyn cyfyngu plant yn wirioneddol i'w synnwyr blas yn unig, fe allech chi hefyd ofyn iddyn nhw ddal eu trwynau fel na allan nhw ddefnyddio eu synnwyr arogl.</li> <li>• Trwy gydol y gweithgaredd, cofiwch atgoffa'r plant eu bod yn defnyddio eu synnwyr o flas a'u tafod i adnabod pethau.</li> <li>• <b>Cwestiynau i'w gofyn:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>– A oedd hi'n hawdd neu'n anodd gweithio allan beth oedd yn gudd gan ddefnyddio'ch synnwyr blas yn unig?</li> <li>– Oedd pob un yn blasu'n dda neu a oedd yna rai nad oeddech chi'n eu hoffi?</li> <li>– A oedd hi'n hawdd neu'n anodd gweithio allan beth oedd ym mhob cwpan?</li> </ul> </li> <li>• <b>Iechyd &amp; Diogelwch:</b> Gwnewch yn siwr eich bod yn ymwybodol o unrwy alergedd neu gyfyngiad deiet yn eich dosbarth cyn caniatáu i blant flasau unrhyw fwyd.</li> </ul>
<p><b>Sleid 11:</b> <b>Cwis y synhwyr</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofynnwch i'r plant drafod pa synnwyr y byddent yn ei ddefnyddio ar gyfer pob gweithgaredd. Anaml y mae bodau dynol yn defnyddio un synnwyr ar ei ben ei hun felly efallai y byddant am roi mwy nag un ateb.</li> </ul>
<p><b>Sleid 12:</b> <b>Siopa a bwyta gan ddefnyddio ein synhwyr</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trafodwch y cwestiynau ar y cyflwyniad gyda'r plant.</li> <li>• Os yw eu rhieni / gofalwyr yn siopa tra nad ydyn nhw gyda nhw neu'n defnyddio gwasanaethau dosbarthu ar-lein, mae'n bosib y bydd gan blant brofiadau cyfyngedig o siopa am ffrwythau a llysiau. Yn yr achos hwn, defnyddiwch y lluniau i siarad am ba lysiau y byddent yn eu dewis a sut y byddent yn penderfynu pa un sydd orau.</li> </ul>
<p><b>Sleid 13:</b> <b>Ydy siâp bwyd yn effeithio ar sut mae'n blasu?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trafodwch sut rydyn ni'n defnyddio ein synhwyr pan rydyn ni'n mwynhau ein bwyd. Mae ymchwil wedi dangos ein bod, i raddau, yn 'bwyta gyda'n llygaid', ac mae ein canfyddiad o sut mae rhywbeth yn blasu yn cael ei effeithio gan y ffordd y mae'n edrych.</li> <li>• Trafodwch y lluniau o ffrwythau a llysiau siâp gwahanol a sut mae plant yn meddwl y gallai eu siâp effeithio ar eu blas, gan gysylltu dysgu blaenorol am synhwyr. Mae'n debygol iawn ar y pwynt hwn y bydd plant yn dweud y bydd y ffrwythau a'r llysiau sy'n edrych yn fwy rheolaidd yn blasu'n well.</li> <li>• Dangoswch dair enghraifft neu fwy i blant o ffrwythau / llysiau sydd â siâp gwahanol, ac mae rhai ohonynt yn edrych yn fwy rheolaidd nag eraill. Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i gynnyrch siâp anarferol, fe allech chi ychwanegu rhywfaint o faw neu grafiadau at un o'ch llysiau na fydd yn effeithio ar flas na defnyddioldeb y bwyd. Ymhlith y bwydydd da i ddewis ar gyfer hyn mae moron, afalau, pupurau, satsumas, grawnwin, ciwcymbrau, mefus neu domatos.</li> <li>• <b>Cwestiynau i'w gofyn:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>– Pa un o'r tri [mefus] yma hoffech chi ei fwyta fwyaf?</li> <li>– Pa un ydych chi'n meddwl fydd yn blasu orau?</li> <li>– Pam ydych chi'n meddwl bydd hwn yn blasu orau?</li> </ul> </li> <li>• <b>Iechyd &amp; Diogelwch:</b> Gwnewch yn siwr eich bod yn ymwybodol o unrwy alergedd yn y dosbarth cyn caniatáu i blant gyffwrdd cynnyrch.</li> </ul>





**Sleid 14:**  
**Ymchwiliwch!**  
**Ydy siâp bwyd yn effeithio ar sut mae'n blasu?**

- Gosodwch yr olygfa: Mae llawer o ffrwythau a llysiau yn cael eu taflu bob dydd oherwydd eu bod â siâp anarferol.
- Mae angen i chi ymchwilio i weld a yw'r cynnyrch simsan yn blasu'n waeth na'r bwyd siâp rheolaidd neu a yw'r bwyd sy'n edrych yn anarferol yn werth ei arbed!
- Mae'n debygol y bydd angen llawer o arweiniad ar blant wrth gynllunio'r ymchwiliad hwn, ac felly dylid cynnal y drafodaeth hon fel dosbarth a chytuno ar dull gyda'i gilydd.
- **Cwestiynau i'w gofyn:**
  - Pa synnwyr y byddwn yn ei ddefnyddio i ddarganfod pa mor flasus yw gwahanol lysiau? Pa organ synnwyr ydyn ni'n ei ddefnyddio ar gyfer yr synnwyr hwn?
  - Sut y byddwch chi'n darganfod pa un sy'n blasu orau?
  - Sut y byddwch chi'n sicrhau nad ydych chi'n beirniadu'r bwyd yn ôl y ffordd mae'n edrych?
- Ymhlith yr awgrymiadau posib ar gyfer cynnal yr ymchwiliad mae:
  - Gofyn i blant raddio tri o'r un math o ffrwythau / llysiau yn ôl yr hyn sy'n edrych y mwyaf blasus a chofnodi hyn, yna cynnal prawf blas gyda mwgwd neu flasu darn o bob un sydd wedi'i dorri i fyny yn y fath fodd fel bod y tri darn yn edrych yn union yr un fath neu'n debyg iawn, iawn ac eto'n eu graddio yn ôl pa rai sy'n blasu'n well. Bydd angen monitro gofalus gan oedolyn er mwyn sicrhau bod cofnod o ba sampl blasu a ddaeth o ba ffrwythau / llysiau.
  - Caniatáu i blant edrych yn ofalus ar ddwy enghraifft o'r un ffrwythau / llysiau, un ohonynt yn afreolaidd ac un arall yn siâp mwy rheolaidd. Yna mae plant yn cael prawf blas gyda mwgwd neu ddarnau blas sydd wedi'u torri a'u paratoi yn y fath fodd fel na allant ddweud pa un yw pa un a gweld a allant nodi pa samplau a ddaeth o'r cynnyrch afreolaidd.
- Er mwyn lleihau gwastraff bwyd, gellid gwneud y gweithgaredd hwn amser byrbryd pan fyddai'r plant wedi bod yn bwyta byrbrydau iach beth bynnag. Os ydych chi'n cyflawni'r dasg hon gartref, gallai'r bwyd hwn fod yn rhan o ginio neu fyrbryd – byddai'n wych cael y teulu cyfan i gymryd rhan!
- Os yn bosibl, ceisiwch ymchwilio i fwy nag un math o gynnyrch. Gellid cynnal y gweithgaredd hwn dros nifer o ddyddiau, gyda bwyd gwahanol yn cael ei roi ar brawf bob dydd.
- **Cwestiynau i'w gofyn:**
  - Pa synnwyr y byddwn yn ei ddefnyddio i ddarganfod pa mor flasus yw gwahanol lysiau? Pa organ synnwyr ydyn ni'n ei ddefnyddio ar gyfer yr synnwyr hwn?
  - Sut y byddwch chi'n darganfod pa un sy'n blasu orau?
  - Sut y byddwch chi'n sicrhau nad ydych chi'n beirniadu'r bwyd yn ôl y ffordd mae'n edrych?
- Cefnogwch y plant trwy eu hymchwiliad. Bydd y gefnogaeth y bydd ei hangen arnynt yn dibynnu ar y dull y maent wedi'i ddewis.
- Efallai y bydd eich ymchwiliad yn digwydd yn ystod un sesiwn neu efallai yr hoffech ei ledaenu dros ychydig o ddyddiau, gan dreialu math gwahanol o gynnyrch bob dydd.
- Os ydych chi'n cyflawni'r gweithgaredd hwn gartref neu mewn grwpiau bach dan oruchwyliaeth agos, gallai plant fod yn rhan o baratoi'r cynnyrch ar gyfer sgiliau bwyta, ymarfer plicio a thorri. Unwaith y bydd y bwyd wedi'i baratoi, gallai'r oedolyn sy'n cefnogi pob grŵp fod â gofal am ei gymysgu yn y dirgel fel na fydd plant yn gwybod pa sampl maen nhw'n ei flasu.
- Sicrhewch fod plant yn cofnodi eu canfyddiadau mewn rhyw ffordd. Gallai hyn fod trwy wneud nodiadau, cwblhau tablau syml neu recordio clipiau fideo neu sain byr.
- **Iechyd a Diogelwch:** Sicrhewch eich bod yn dangos y technegau cywir ar gyfer plicio a thorri i'r plant os ydyn nhw'n ymwneud â pharatoi bwyd, a'u bod yn cael eu goruchwyllo'n agos a'u cefnogi drwyddi draw. Sicrhewch fod pawb sy'n bwyta a / neu'n paratoi bwyd wedi golchi eu dwylo'n drylwyr cyn gwneud hynny, a'ch bod yn ymwybodol o unrhyw alergeddau neu gyfyngiadau dietegol yn y dosbarth cyn caniatáu i blant flasu bwyd.





<p><b>Sleid 15:</b> <b>Beth wnaethoch chi ei ddarganfod?</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Trafodwch y canlyniadau a gasglodd y plant ac a ydyn nhw'n ateb ein cwestiwn ymchwilio – a yw siâp bwyd yn effeithio ar y ffordd y mae'n blasu?</li> <li><b>Cwestiynau i'w gofyn:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>A oeddech chi'n gallu gweithio allan pa lysiau oedd y rhai siâp afreolaidd dim ond trwy eu blasu?</li> <li>A gawsoch eich synnu gan yr hyn wnaethoch chi ei ddarganfod?</li> </ul> </li> <li>Trafodwch a yw hyn yn newid eu syniadau am ffrwythau a llysiau sy'n edrych yn afreolaidd a'r hyn y gallent ei ddweud wrth rywun nad yw am brynu cynnyrch sydd â siâp anarferol.</li> <li>Er mwyn ymestyn yr ymchwiliad hwn, gallai'r plant gynllunio a chreu prosiect a fydd yn helpu i godi ymwybyddiaeth o werth bwyd simsan i'w arbed rhag cael ei daflu. Gallant rannu eu syniadau ar unrhyw ffurf yr hoffent, y mwyaf creadigol y gorau! Mae rhai awgrymiadau posib yn cynnwys:             <ul style="list-style-type: none"> <li>Dyfeisiwch rysâit sy'n cynnwys cynnyrch siâp afreolaidd, fel cawl, stiwb neu salad</li> <li>Creu poster yn annog pobl i fod yn archarwyr llysiau simsan a chymryd yr her o roi cynnig ar gynnyrch siâp afreolaidd drostynt eu hunain</li> <li>Ysgrifennwch a chyflwynwch fwletin newyddion yn egluro'ch canfyddiadau am flas llysiau siâp afreolaidd. Fe allech chi ffilmio hwn gan ddefnyddio tabled neu ffôn.</li> </ul> </li> </ul>
<p><b>Sleid 16:</b> <b>Cystadleuaeth</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Anogwch y plant i feddwl sut y gallent ddefnyddio eu dysgu am lysiau siâp afreolaidd i'w helpu i ddylunio syniad, dyfais neu arloesedd a fydd yn helpu ffermwyr i barhau i ofalu am yr amgylchedd a bod yn archarwyr hinsawdd.</li> </ul>

## Cysylltiadau i'r Cwricwlwm i Gymru

Maes dysgu a phrofiad	Disgrifiad dysgu	Cam cynnydd 1
Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomonau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rwy'n gallu archwilio'r amgylchedd, gwneud arsylwadau a mynegi fy syniadau.</li> </ul>
	Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rwy'n gallu adnabod bod planhigion ac anifeiliaid yn bethau byw sy'n tyfu.</li> </ul>

